

Ymddiriedolaeth Gregynog

Briff Ymgeiswyr ar gyfer rôl Prif Weithredwr

Mae Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Gregynog yn chwilio am Brif Weithredwr talentog, dynamig a dychmygus ar gyfer Neuadd ac Ystâd Gregynog mewn cyfnod allweddol yn ei hanes.

Bydd y Prif Weithredwr yn dangos arweiniad cryf, strategol gan groesawu'r cyfle i adeiladu ar hanes a phwysigrwydd Gregynog ym mywyd cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol Cymru.

Gregynog

Mae Neuadd Gregynog yng nghanolbarth Cymru mewn lleoliad godidog ym Maldwyn wledig. Mae'n blasty gwledig mawr Rhestredig Gradd II* sy'n dyddio o'r 1840au. Yn ei hystâd 750 erw ceir gerddi rhestredig Gradd 1 a ddyluniwyd gan William Emes yn ogystal â choetiroedd, ffermydd tenantiaid a Gwarchodfa Natur Genedlaethol ddynodedig.

Teuluoedd Sudeley a Blayney oedd deiliaid gwreiddiol Gregynog, ac mae i'r tŷ hanes pwysig. Yn 1924 daeth yn gartref i'r dyngarwyr, yr entrepreneuriaid cymdeithasol a'r casglwyr celf Gwendoline a Margaret Davies, a barhaodd i fyw yno tan iddynt farw yn 1951 ac 1963 yn eu tro. Roeddent yn rhannu gweledigaeth ar gyfer Gregynog fel lleoliad i fentrau diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol er lles y cyhoedd.

Mynegwyd angerdd Gwendoline a Margaret am gerddoriaeth, llenyddiaeth a'r celfyddydau cain ac addurniadol drwyddi draw ym mywyd Gregynog. Golygodd ymrwymiad y chwirydd i gyfoethogi bywydau drwy roddion cyhoeddus fod Gregynog yn ganolfan a gydnabuwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar gyfer diwylliant a thrafod. Roedd yn cynnwys casgliad pwysig o gelf, llyfrau a chelfi. Dyma hefyd oedd cartref Gwasg Gregynog a sefydlwyd gan y chwirydd.

Ynghyd â'u brawd David, chwaraeon nhw ran hanfodol yn sefydlu, datblygu a chefnogi nifer o sefydliadau cenedlaethol Cymru. Mae eu stori yn un o straeon diffiniol Cymru ac wedi ysbrydoli gweledigaeth a diben Ymddiriedolaeth Gregynog.

Ceir nodiadau at ddarllen pellach am Gwendoline a Margaret Davies yn Atodiad 1.

Rhagor o gefndir i ymgeiswyr

Yn 1960 trosglwyddodd Margaret Davies Neuadd Gregynog mewn ymddiriedaeth i Brifysgol Cymru. Fel ceidwad yr ased pwysig hwn, bu'r Brifysgol yn rhedeg Gregynog fel canolfan gynadledda i bum Coleg y Brifysgol. Yn y blynyddoedd diweddar mae tîm gweithredol Gregynog wedi llwyddo i ddenu cyllid drwy grantiau amrywiol, gan gyflawni statws gwarchodfa natur ddynodedig i rannau o'r Ystâd, a datblygu incwm llety, priodasau, llogi ystafelloedd, cynadledda a chaffi.

Mae'r Neuadd eisoes yn lleoliad ar gyfer amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, cyngherddau, seminarau proffesiynol a chyrsiau hyfforddi, ond mae cyfle sylweddol i ddatblygu'r busnes, gan dynnu ar hanes cyfoethog Gregynog a chynnal ethos y chwirydd Davies wrth gefnogi'r celfyddydau ac addysg yn unol â thelerau'r Weithred Rhodd i'r Brifysgol (ac amcanion elusennol y Brifysgol ei hun).

- Bod yn gyfrifol yn gymdeithasol, cynnwys y gymuned leol ac annog defnydd o Neuadd Gregynog fel man cyswllt a chatalydd ar gyfer syniadau.
- Cynnal stiwardiaeth yr amgylchedd, gan gadw amrywiaeth naturiol yr Ystad.
- Sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol.
- Cadw ymdeimlad o le, gan gyfathrebu hanes ac arwyddocâd diwylliannol Gregynog.

Yn dilyn aildrefnu Prifysgol Cymru, ac ymrwymiad y Brifysgol a osodwyd yn *Adduned Cymru*, Atodiad 2, bydd y Neuadd a'r Ystâd yn trosglwyddo, gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Gwendoline a Margaret Davies, i berchnogaeth Ymddiriedolaeth

Ymddiriedolaeth Gregynog, Rhif Cwmni Cyfyngedig Preifat 10479711, Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestrdig: Neuadd Gregynog, Tregynon, Powys, SY16 3PW, Cymru

newydd Gregynog. Diben y trosglwyddo yw diogelu a datblygu dyfodol llwyddiannus i Gregynog, un sy'n adeiladu ar ei phwysigrwydd diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol i Gymru.

Cynigir y caiff perchnogaeth Neuadd Gregynog a'i Hystâd ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Gregynog Cyf a gofrestrwyd ym mis Tachwedd 2016. Caiff Amcanion a Phwerau manwl yr Ymddiriedolaeth eu hegluro yn ei Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu sefydlu. Atodiad 3

Rydym nawr yn chwilio am Brif Weithredwr i fireinio a datblygu strategaeth amlinellol a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolwyr, datblygu cynllun busnes strategol ac arwain esblygiad gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth at ganlyniad llwyddiannus a chyflenwi busnes dilynol.

Y Rôl

Fel y Prif Weithredwr cyntaf a benodir i'r Ymddiriedolaeth byddwch yn deall pwysigrwydd hanesyddol Gregynog a'r cyfleoedd cyffrous at y dyfodol fel man i ysbrydoli a chysylltu yng nghanol Cymru. Byddwch yn gweithio gyda'r Ymddiriedolwyr, y staff a rhanddeiliaid i wireddu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth i sefydlu Gregynog yn grwsibl yng Nghymru ar gyfer creadigrwydd, arweinyddiaeth a dysg. Byddwch yn ymrwymo'n llawn i'r dasg hon ac yn wynebu'r heriau cysylltiedig â brwdfrydedd.

Mae newid a'r ansicrwydd a ddaw yn sgil hynny wedi nodweddu hanes diweddar Gregynog. Byddwch yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan Ymddiriedolwyr a staff i frwydro hyn, gan weithio'n agos gyda nhw i wireddu eu gweledigaeth yn llwyddiannus ac uchafu potensial y neuadd a'r ystâd.

Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu a mireinio cynllun busnes strategol a gweithrediadol i fodloni gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal â chynnwys Amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth, bydd y cynllun hwn yn ystyried y ffordd orau i fanteisio ar botensial yr ystâd fawr amlweddog.

Ymddiriedolaeth Gregynog, Rhif Cwmni Cyfyngedig Preifat 10479711, Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestredig: Neuadd Gregynog, Tregynon, Powys, SY16 3PW, Cymru

O fewn y tîm gweithredol, elfen allweddol fydd datblygu diben cyffredin ac ymdeimlad o gynhwysiad ymhlith staff ac adeiladu grŵp â'r sgiliau priodol sy'n hyderus i weithredu mewn diwylliant agored a chadarnhaol.

Byddwch yn cyfathrebu'n glir, ac yn ddychmygus yn y ffordd y byddwch yn datrys problemau er mwyn sefydlu momentwm newydd ar y pwynt allweddol hwn yn hanes a gwaddol yr Ystâd.

Yn ogystal â chryfhau perthnasoedd gyda rhanddeiliaid presennol, byddwch yn adeiladu partneriaethau newydd a chydweithredol, yng Nghymru a thu hwnt, fel amod angenrheidiol o wireddu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth.

Er mwyn bodloni'r amcanion hyn, bydd gofyn i chi ddangos profiad sylweddol ar lefel weithredol yn y sectorau diwylliannol, elusennol a neu gorfforaethol a'r gallu i gydweddu adnoddau gweithrediadol gydag amcanion strategol. Bydd gennych brofiad o adeiladu tîm o fewn sefydliad a ffurfio partneriaethau gyda chyrff allanol allweddol.

Byddwch yn atebol i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac yn gweithio'n agos gyda nhw i fireinio, datblygu a chyflenwi cynllun busnes cynhwysfawr sy'n adlewyrchu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth, gan ymgorffori'r diben elusennol ynghyd â chynhyrchu incwm angenrheidiol.

Byddwch yn rhannu'r angerdd sydd gan yr Ymddiriedolwyr a llawer o bobl eraill dros Gregynog a bydd eich rôl yn allweddol yn sicrhau y bydd ganddi ddyfodol diogel a chreadigol i'r genedl a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canlynol yn ofynion allweddol:

- Datblygu a mireinio cynllun busnes strategol sy'n adlewyrchu gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth ac yn cyfuno cynhyrchu incwm â'r diben elusennol, gan ymateb yn glir i Amcanion yr Ymddiriedolaeth.
- Cyfoethogi a siapio adnoddau dynol mewn diwylliant cadarnhaol yn ôl anghenion strategol a gweithrediadol.

Ymddiriedolaeth Gregynog, Rhif Cwmni Cyfyngedig Preifat 10479711, Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Swyddfa gofrestrdig: Neuadd Gregynog, Tregynon, Powys, SY16 3PW, Cymru

- Cymryd cyfrifoldeb am flaenoriaethau ansawdd uchel a gweithrediadol wrth gyflenwi'r cynllun busnes strategol, codi arian ac ymgysylltu.
- Gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, adrodd iddynt a'u cefnogi er budd llwyddiant Ymddiriedolaeth Gregynog ac er mwyn diogelu Gregynog i'r genedl a chenedlaethau'r dyfodol.

Prif Delerau ac Amodau

Teitl:	Prif Weithredwr
Statws Contract:	Contract parhaol llawn amser, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn foddhaol
Atebol i:	Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Gregynog LTD
Lleoliad:	Neuadd Gregynog, Tregynon, ger y Drenewydd, Powys SY16 3PW a lleoliadau ar draws Cymru fel bo angen.
Gwyliau Blynnyddol:	25 diwrnod a 8 o wyliau cyhoeddus a 7 diwrnod arferol bob blwyddyn, yn amodol ar gytundeb ffurfiol ar adeg penodi.
Tâl:	c£70K y flwyddyn. Dyfarniadau'r dyfodol yn unol â'r polisi tâl ac fel y pennir gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr.
Cynllun Pensiwn:	I'w drafod
Llety:	Gallai fod yn bosibl cynnig defnydd o lety ar y safle, yn amodol ar drafodaethau pellach ac anghenion yr unigolyn.

Cyfle Cyfartal:

Mae Ymddiriedolaeth Gregynog yn ymrwymo i gyfle cyfartal ym mhob agwedd o'i gwaith ac mae'r holl bersonél yn gweithredu eu dyletswyddau yn unol â'r ymrwymiad hwn a'n Polisi.

Cyfnod rhybudd:

Cyflogwr – Tri mis
Cyflogai – Tri mis

Caiff telerau ac amodau manwl eraill eu trafod a'u cytuno os ceir cynnig ffurfiol ac fe'u darperir yn y contract cyflogaeth, gyda manylion llawn yn y Llawlyfr Staff, Polisiau a Gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Gregynog.

Atodiad 1

Darllen pellach

Things of Beauty: What two sisters did for Wales

ISBN 978 – 0-7200-0581-3 National Museum Wales Books, 2007

The Spiritual Pilgrims, Ian Parrott, Cyhoeddwyd gan Christopher Davies, 1969

Gregynog golygwyd gan Glyn Tegai Hughes, Prys Morgan a J Gareth Thomas, ISBN 0-7083-0634-9 University of Wales Press, 1977

A Gift of Sunlight: The fortune and quest of the Davies Sisters of Llandinam

Trevor Fishlock, ISBN 978-1-84851-811-7 Gwasg Gomer, 2014

An Elusive Tradition: Art and Society in Wales 1870-1950

Eric Rowan a Carolyn Stewart, ISBN 0-7083-1769-3 University of Wales Press, 2002

Great Women Collectors Charlotte Gere and Marina Vaizey, ISBN 0-85667-503-2, Philip Wilson Publishers, 1999

Atodiad 2

Adduned Cymru PDF

Atodiad 3

Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Ymddiriedolaeth Gregynog PDF

DIWEDD